# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-15-08)

### SLC162

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

### Teitl: Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) (Diwygio) 2008

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân newidiadau i Reoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2008.

### Gweithdrefn: Negyddol

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.

Mae diffiniad "Rheoliadau 2008" yn nhestun Cymraeg rheoliad 3 yn ddiffygiol. Yn lle cyfeirio tuag at "Rheoliadau Grantiau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2008", mae rheoliad 3 yn diffinio "Rheoliadau 2008" fel "Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu'r Cynulliad (Sefydliadau Ewropeaidd) (Cymru) 2008". Yn ogystal, gan fod testun Saesneg y rheoliad yn gywir, mae anghysondeb yn bodoli rhwng testun Cymraeg a thestun Saesneg rheoliad 3. Dylid cywiro'r nam yn nhestun Cymraeg rheoliad 3 cyn gynted ag y bo modd. [Rheol Sefydlog 15.2 (vi) a (vii)]

### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

Mae'r llywodraeth wedi nodi ei bod yn derbyn y pwynt adrodd a grybwyllir uchod ond nid yw'n bwriadu cymryd unrhyw gamau ar hyn o bryd gan fod y Rheoliadau sy'n ymwneud â'r flwyddyn academaidd 2009/10 yn mynd i gael eu gwneud yn y 6 mis nesaf. Gellir cynnwys y diwygiad yn y Rheoliadau hynny.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
Mehefin 2008